# Canllawiau a Chymhwysedd

## 1. TROSOLWG

Mae'r Grant Dechrau Busnes yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol a'i weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o gyfres ehangach o gronfeydd ysgogi economaidd.

Mae'r grant hwn yn un o dair rhaglen gyflenwol a gynlluniwyd i gefnogi busnesau ar wahanol gamau o'u cylch bywyd, gan ddarparu llwybr dilyniant clir o ddechrau busnes hyd at dyfu'r busnes a sicrhau darbodion maint.

Mae'r cynllun yn darparu buddsoddi cyfalaf wedi'i dargedu i gefnogi busnesau newydd a busnesau cynnar ar draws pob sector, gan alluogi creu mentrau, gweithgareddau masnachu cynnar a chynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r cynllun yn cyfrannu at y canlynol:

**Blaenoriaeth 1 y Gronfa Twf Lleol – Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**
Yn cefnogi:

- Creu mentrau newydd
- Entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth
- Gwydnwch a chynaliadwyedd busnesau
- Cynhyrchiant a chystadleurwydd
- Arloesi a moderneiddio
- Creu swyddi
- Buddsoddi yn y sector preifat

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i weithio ochr yn ochr â Hwyluso Menter, Busnes Cymru a rhaglenni cymorth busnes eraill i sicrhau y gall busnesau gael mynediad at gymorth parhaus wrth iddynt ddatblygu a thyfu.

**Cyfnod cyflwyno'r rhaglen**

Dim ond yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 y mae cyllid ar gael. Rhaid cwblhau pob prosiect cymeradwy yn llawn, mynd i'r holl wariant a thalu amdano, a chyflwyno hawliadau grant erbyn **31 Ionawr 2027** fan bellaf.

Rhaid i geiswyr ddangos yn ystod y cam ymgeisio y gellir cyflawni eu prosiect o fewn yr amserlenni hyn.

## 2. AMCANION Y GRONFA

Nod y Grant Dechrau Busnes yw:

- Annog entrepreneuriaeth a chreu busnesau
- Cefnogi entrepreneuriaid newydd a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Galluogi busnesau hyfyw i ddechrau masnachu
- Dileu rhwystrau i greu busnesau drwy fuddsoddi cyfalaf wedi'i dargedu
- Cefnogi twf cynaliadwy ymhlith busnesau o'r cam cynharaf
- Annog arloesedd, mabwysiadu digidol a gwelliannau cynhyrchiant
- Hyrwyddo arferion busnes amgylcheddol gynaliadwy lle bo'n briodol
- Creu gweithgarwch economaidd ym Mlaenau Gwent

## 3. PWY ALL WNEUD CAIS

**Ceiswyr cymwys**

Rhaid i geiswyr fod fel a ganlyn:

- Wedi'u lleoli ym Mlaenau Gwent neu'n bwriadu adleoli i Flaenau Gwent
- Heb ddechrau eu busnes neu wedi bod yn masnachu am lai na chwe mis ar ddyddiad y cais
- Yn cyflogi llai na 249 o weithwyr
- Wedi'u sefydlu fel un o'r canlynol:
    - Unig fasnachwr
    - Partneriaeth
    - Cwmni cyfyngedig
    - Cydweithfa
    - Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
    - Cwmni buddiant cymunedol
    - Menter gymdeithasol gofrestredig

- Is-gwmni masnachol elusennol

Rhaid i geiswyr wneud y canlynol:

- Gweithredu neu fwriadu gweithredu ar sail amser llawn (o leiaf 35 awr yr wythnos)
- Dangos mai'r busnes fydd y prif ffynhonnell incwm
- Bod wedi ymgysylltu â darparwr cymorth busnes cydnabyddedig
- Cyflwyno cynllun busnes hyfyw
- Dangos llwybr clir i fasnachu a chynhyrchu incwm
- Dangos budd economaidd i Flaenau Gwent

**Gellir rhoi blaenoriaeth i'r canlynol:**

- Entrepreneuriaid newydd
- Entrepreneuriaid ifanc
- Mentrau dan arweiniad menywod
- Mentrau cymdeithasol
- Busnesau sy'n cefnogi amcanion sero net
- Busnesau sy'n cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau arloesol
- Busnesau sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth

## 4. CEISIADAU ANGHYMWYS

Ni fydd ceisiadau'n cael eu cefnogi o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Nid yw'r model busnes yn hyfyw
- Bwriedir i'r busnes fod yn hobi neu'n incwm atodol
- Mae'r prosiect yn seiliedig ar refeniw yn bennaf
- Mae'r gweithgaredd yn dyblygu darpariaeth bresennol a ariennir yn gyhoeddus
- Nid oes digon o dystiolaeth o alw yn y farchnad

Mae'r ceisydd, busnes, perchennog, cyfarwyddwr, partner, ymddiriedolwr neu unigolyn rheoli wedi methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau grant blaenorol a ddyfarnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Gall diffyg cydymffurfio gynnwys y canlynol (heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Methu â darparu gwybodaeth fonitro
- Methu â darparu tystiolaeth o allbynnau neu ganlyniadau y cytunwyd arnynt
- Methu â darparu tystiolaeth o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd
- Methu ag ymateb i geisiadau am wybodaeth fonitro

- Methu â chydymffurfio ag amodau grant
- Materion yn ymwneud ag adennill grantiau, adfachu neu gydymffurfio sydd heb eu datrys

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cadw'r hawl i ystyried perfformiad grantiau blaenorol a hanes cydymffurfio wrth benderfynu ar gymhwystra a dyfarnu cyllid.

**Cyfyngiadau gorgyflenwi'r farchnad**

Oherwydd gorgyflenwad yn y farchnad, ni fydd y gweithgareddau busnes canlynol fel arfer yn cael eu cefnogi:

- Gwasanaethau trin gwallt symudol
- Gwasanaethau therapi harddwch symudol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau lle nad oes digon o dystiolaeth o alw yn y farchnad, ychwanegedd, cynaliadwyedd neu fudd economaidd.

## 5. MANTEISION ECONOMAIDD DISGWYLIEDIG

Rhaid i geiswyr ddangos sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

- Creu busnes newydd
- Creu cyfleoedd cyflogaeth newydd, gan gynnwys hunangyflogaeth
- Mwy o fuddsoddi yn y sector preifat
- Gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd
- Cyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau arloesol
- Mabwysiadu technolegau digidol
- Cynaliadwyedd a gwydnwch busnes
- Cynyddu cystadleurwydd a'r potensial i dyfu
- Gweithgarwch economaidd hirdymor ym Mlaenau Gwent

Bydd gofyn i geiswyr ragweld canlyniadau disgwyliedig fel rhan o'r broses ymgeisio.

## 6. GWARIANT CYMWYS

### Costau cyfalaf cymwys

Dim ond gwariant cyfalaf y mae'r grant yn ei gefnogi.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Peiriannau ac offer
- Offer arbenigol
- Caledwedd digidol
- Gliniaduron, tabledi ac offer TG busnes
- Systemau pwynt talu
- Meddalwedd sy'n bwysig i'r busnes
- Gosodiadau a ffitiadau mewnol
- Offer sydd eu hangen i ddechrau masnachu
- Offer carbon isel neu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon
- Offer sy'n cefnogi gwelliannau i hygyrchedd

**Costau anghymwys**

Nid yw'r canlynol yn gymwys:

- Cyflogau neu daliadau gweithio
- Marchnata a hysbysebu
- Ffioedd ymgynghori
- Ffioedd cyfreithiol
- Hyfforddiant
- Aelodaethau a thanysgrifiadau
- Rhent a chyfleustodau
- Stoc a nwyddau traul
- Cyfalaf gweithio
- Gwaith adeiladu
- Atgyweiriadau arferol
- Gwaith cynnal a chadw
- Amnewidiadau tebyg am debyg
- TAW (lle gellir ei hawlio'n ôl)
- Gwariant ôl-weithredol

## 7. LEFEL Y CYMORTH

| Eitem | Swm |
|---|---|
| Grant lleiaf | £1,000 |
| Grant mwyaf | £5,000 |
| Cyfradd ymyrraeth | Hyd at 80% |

Rhaid i geiswyr ddarparu cyfraniad o o leiaf 20% tuag at gyfanswm costau'r prosiect.

Dylai ceisiadau ganolbwyntio ar wariant cyfalaf hanfodol sy'n ofynnol i sefydlu'r busnes a byddent fel arfer yn gyfyngedig i **uchafswm o bum eitem gyfalaf allweddol**.

Disgwylir i ddyfarniadau gwerth uwch ddangos:

- Hyfywedd busnes cryf
- Galw amlwg yn y farchnad
- Effaith economaidd
- Potensial i dyfu
- Cyfleoedd cyflogaeth

**8. Y BROSES YMGEISIO**

**Cam 1 – Mynegi diddordeb**
Bydd ymgeiswyr yn darparu:

- Trosolwg o'r busnes
- Gwariant arfaethedig
- Costau amcangyfrifedig
- Allbynnau a chanlyniadau disgwyliedig
- Amserlen y prosiect

**Cam 2 – Cais llawn**

Bydd ymgeiswyr yn darparu:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Cynllun busnes
- Rhagolwg llif arian 12 mis
- Rhagolwg elw a cholled 12 mis

- Tri dyfynbris cymaradwy ar gyfer pob eitem
- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol
- Prawf o hunaniaeth
- Prawf o gyfeiriad
- Gwybodaeth am y safle lle bo'n berthnasol

## 9. Y FFRAMWAITH ASESU

Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y canlynol:

**Addasrwydd strategol – 25%**
- Aliniad ag amcanion y Gronfa Twf Lleol
- Cyfraniad at flaenoriaethau economaidd lleol

**Effaith economaidd – 25%**
- Creu busnesau
- Ychwanegedd
- Potensial cyflogaeth

**Hyfywedd y busnes a chyflawnadwyedd – 25%**
- Cynllunio busnes
- Galw yn y farchnad
- Cynaliadwyedd ariannol
- Y gallu i gwblhau'r prosiect a hawlio ar ei gyfer o fewn amserlenni'r rhaglen

**Arloesedd a chynhyrchiant – 10%**
- Dulliau newydd
- Mabwysiadu digidol
- Gwelliannau i gynhyrchiant

**Gwerth am arian – 15%**
- Defnydd priodol o gyllid
- Y canlyniadau o'u cymharu â'r grant y gofynnwyd amdano

**10. RHEOLI CYMORTHDALIADAU**

Bydd pob dyfarniad yn cael ei ddarparu yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Bydd gofyn i geiswyr wneud y canlynol:

- Datgan cyllid cyhoeddus blaenorol a dderbyniwyd
- Cwblhau pob datganiad rheoli cymorthdaliadau
- Darparu gwybodaeth yn ymwneud â Chymorth Ariannol Lleiaf lle bo angen
- Cadw cofnodion cymorthdaliadau am y cyfnod a bennir gan y ddeddfwriaeth

Gall methu â darparu gwybodaeth gywir arwain at dynnu'r grant yn ôl neu ei adennill.

**11. Y BROSES BENDERFYNU**

Fel arfer, bydd ceiswyr yn cael gwybod am benderfyniad ariannu o fewn pedair wythnos i gyflwyno cais cyflawn.

Mae cyllid yn ddewisol ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael, blaenoriaethau'r rhaglen, a gallu'r ceisydd i gwblhau'r prosiect o fewn amserlenni gofynnol y rhaglen.

Nid oes hawl awtomatig i gael cymorth grant ac nid oes hawl statudol i apelio.

**12. TALU'R GRANT**

Telir arian grant mewn ôl-daliadau ar ôl cyflwyno'r canlynol:

- Cytundeb grant wedi'i lofnodi
- Anfonebau
- Prawf o daliad
- Tystiolaeth ffotograffig pan fo'n berthnasol
- Tystiolaeth bod y busnes wedi dechrau masnachu lle bo hynny'n berthnasol

Rhaid peidio â dechrau prosiectau nes bod cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi'i derbyn gan y cyngor.

Fel arfer, dylid cwblhau prosiectau o fewn chwe wythnos oni bai y cytunir fel arall.

Waeth beth fo amserlenni prosiectau unigol, rhaid cwblhau pob
prosiect yn llawn a chyflwyno hawliadau grant terfynol erbyn **31 Ionawr 2027** fan bellaf.

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cynnig grant yn ôl lle nad oes digon o hyder y gellir cwblhau prosiect a hawlio ar ei gyfer o fewn terfynau amser gofynnol y rhaglen.

## 13. MONITRO AC ADRODD

Bydd gofyn i geiswyr llwyddiannus gymryd rhan mewn proses o fonitro'r rhaglen.

Gall gwybodaeth fonitro gynnwys:

- Cadarnhad o weithgarwch masnachu
- Goroesiad y busnes
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Twf y busnes
- Buddsoddiadau ychwanegol wedi'u sicrhau
- Gwelliannau i gynhyrchiant wedi'u cyflawni

Gall monitro ddigwydd am hyd at 24 mis ar ôl cwblhau'r prosiect.

## 14. GOFYNION CAFFAEL

Rhaid i geiswyr gael tri dyfynbris cymaradwy ar gyfer pob eitem lle bynnag y bo modd.

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i geisio tystiolaeth ychwanegol i ddangos gwerth am arian.

Ni fydd y dyfynbris isaf yn cael ei dderbyn yn ddiofyn os oes rhesymau eraill dros ddewis dyfynbris uwch, e.e. ansawdd ac argaeledd.

## 15. TWYLL, CAMLIWIO AC ADENNILL

Mae'r cyngor yn cymryd twyll a chamliwio o ddifrif.

Gall unrhyw geisydd y canfyddir ei fod wedi darparu gwybodaeth ffug, gamarweiniol neu anghywir fod yn destun:

- Tynnu'r cynnig grant yn ôl
- Adennill cyllid grant
- Atgyfeirio at yr awdurdodau perthnasol

**16. CADW COFNODION**

Rhaid i dderbynwyr grantiau gadw'r holl gofnodion prosiect, anfonebau, dyfynbrisiau, tystiolaeth ariannol a dogfennaeth ategol am gyfnod o o leiaf saith mlynedd ar ôl y taliad terfynol.

**17. CYHOEDDUSRWYDD A BRANDIO**

Efallai y bydd gofyn i geiswyr llwyddiannus gydnabod y cymorth a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Twf Lleol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion cyhoeddusrwydd a brandio a gyhoeddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

**18. CYDWEDDU RHAGLENNI**

Mae'r Grant Dechrau Busnes yn rhan o gronfeydd ysgogi economaidd Blaenau Gwent, sydd hefyd yn cynnwys:

- Y Grant Datblygu Busnes
- Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn darparu llwybr strwythuredig sy'n cefnogi creu busnesau, twf, cynhyrchiant a datblygu economaidd hirdymor.

**19. EGWYDDORION ALLWEDDOL**

Rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy’r cynllun hwn wneud y canlynol:

- Cefnogi’r gwaith o greu busnesau cynaliadwy
- Darparu budd economaidd mesuradwy
- Dangos ychwanegedd
- Gwella cynhyrchiant, cystadleurwydd neu gynaliadwyedd
- Dangos ei fod yn cynrychioli gwerth am arian
- Dangos bod modd ei gwblhau, a bod modd hawlio ar ei gyfer, erbyn 31 Ionawr 2027
- Cyfrannu at economi gryfach a mwy gwydn ym Mlaenau Gwent